Cadw

# Croeso i Gastell Talacharn

Y castell a ddisgrifiwyd gan Dylan Thomas fel ‘brown as owls’

## Beth i’w weld yng Nghastell Talacharn


1. Ewch i mewn i’r Ward Fewnol trwy’r porthdy mawreddog hwn, a ail-luniwyd gan Syr John Perrot i’w wneud yn fynedfa deilwng i’w blasty Tuduraidd.
2. Chwiliwch am yr addasiadau a wnaed i’r Neuadd Fawr yn ystod oes gymharol heddychlon y Tuduriaid. Beth am y ffenestri enfawr ’na i ddechrau?
3. Dringwch i ben Tŵr y Gogledd-orllewin. Mae ei do cerrig anghyffredin yn sicr yn uchafbwynt. Mwynhewch y golygfeydd gwych a welwch o’r bylchfuriau!
4. Chwiliwch am ein ffynnon. Roedd dŵr croyw i’w gael o’r ffynnon — defnyddiol ar y gorau ond hanfodol pan oedd y castell dan warchae.
5. Tybed a gewch chi, fel Dylan Thomas, ysbrydoliaeth yn y Gasebo? Dyma lle’r ysgrifennodd ei straeon byrion arbennig, Portrait of the Artist as a Young Dog.
6. Rhowch funud i chwilio am y cloc haul — a gwerthfawrogi golygfeydd gwych dros yr aber.
7. Ymlaciwch yn ein gardd Fictoraidd sydd wedi’i hadfer a’i thirlunio. Bu cryn dipyn o ymladd yma yn y canoloesoedd.
8. Mynedfa/siop.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru

Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae’r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha’r modd, does dim dreigiau’n byw mewn cestyll, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?




### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â’r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy’r amser.

Mae’r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw’n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae’n drosedd difrodi neu ddifwyno’r heneb.

Laugharne Croeso leaflet WELSH v3.indd 1 07/05/2024 16:20